Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267226440
Ffacs: Fax: 01267226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Ffurflen Adolygiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Defnyddio'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon os ydych yn anhapus ynghylch canlyniad eich cwyn. **Rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) dderbyn eich cais am adolygiad o fewn 28 diwrnod o'r dydd ar ôl y dyddiad a nodir ar eich llythyr canlyniad oddi wrth Heddlu Dyfed Powys.** Er enghraifft, os yw eich llythyr wedi ei ddyddio'r 1af o Ebrill, rhaid i chi sicrhau ein bod yn derbyn eich cais am adolygiad erbyn y 29ain o Ebrill.

## Hygyrchedd

Os yw'n anodd i chi ddefnyddio'r ffurflen hon neu'r gwasanaeth hwn, er enghraifft, os nad Cymraeg yw'ch iaith gyntaf neu mae gennych anabledd, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir isod:

Ffôn: 01267 226440
E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch i'ch cefnogi drwy'r system adolygiad, amlinellwch y rhain isod os gwelwch chi'n dda. Er enghraifft, os oes gennych nam golwg, efallai y byddwch angen ymatebion ysgrifenedig mewn testun mwy o faint.

## Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth yn fy ffurflen adolygiad?

Bydd y wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen hon yn cael ei hychwanegu i'n systemau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i ni roi manylion eich adolygiad i Heddlu Dyfed-Powys a/neu Adolygydd Annibynnol a fydd yn ystyried eich adolygiad ac yn gwneud argymhellion i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Noder: Gall holl gynnwys y ffurflen hon (gan gynnwys eich gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth) gael ei gyflwyno i Heddlu Dyfed-Powys a'r Adolygydd Annibynnol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r heddlu, neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am y ffordd y bydd eich data'n cael ei drin, galwch ni ar 01267 226440.

Am wybodaeth ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/mynediad-i-wybodaeth-rydyn-ni-n-dal/.

## Ble i anfon y ffurflen adolygiad hon

Anfonwch eich ffurflen orffenedig at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh). Gweler y manylion cyswllt isod:

E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk

Cyfeiriad: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 2PF

## 1. Amdanoch Chi

| | |
|---|---|
| Teitl | |
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Cod post | |
| Cyfeiriad | |
| E-bost | |
| Ffôn | |
| Dull cysylltu a ffefrir | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi’n gwneud cais am adolygiad ar ran rhywun arall? | ☐ Ydw – Cwblhewch Adran 2<br>☐ Nac ydw – Ewch yn syth i Adran 3 |

## 2. Manylion yr unigolyn rydych chi’n gwneud cais am adolygiad ar ei ran

(Dylech ond llenwi’r adran hon os ydych chi’n gwneud cais am adolygiad ar ran rhywun arall)

Os ydych chi'n gwneud y cais am adolygiad hwn ar ran rhywun arall, rhaid i chi gael caniatâd yr unigolyn hwnnw.

| | |
|---|---|
| Perthynas â’r apelydd | ☐ Cynrychiolydd Cyfreithiol<br>☐ Perthynas<br>☐ Ffrind<br>☐ Arall |
| Os ateboch ‘arall’ – nodwch y berthynas | |
| Teitl | |
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Cod post | |
| Cyfeiriad | |
| E-bost | |
| Ffôn | |
| Dull cysylltu a ffefrir | |
| Cadarnhad o awdurdod i ofyn am adolygiad ar ran yr apelydd | ☐ Cadarnhawyd |
| Rwy'n atodi tystiolaeth adnabod ffotograffig i'r cais hwn er mwyn profi pwy ydwyf. | ☐ Cadarnhawyd |

## 3. Manylion yr Adolygiad

| | |
|---|---|
| Adolygiad sefydliad yn erbyn | Heddlu Dyfed-Powys |
| Rhif cyfeirnod yr heddlu | |
| A ymchwiliwyd i’r gŵyn? | ☐ Do<br>☐ Naddo<br>☐ Ddim yn gwybod |

| |
|---|
| **Dwedwch wrthym pam yr hoffech wneud cais am adolygiad ynghylch canlyniad eich cwyn:**<br><br>Dylai'r heddlu geisio canfod canlyniad i'ch cwyn sy'n rhesymol a chymesur; gallwch ofyn am adolygiad os ydych yn credu nad ydynt wedi gwneud hynny. Er mwyn cynorthwyo'r |

adolygydd, esboniwch pam rydych yn credu nad oedd y canlyniad a roddwyd i chi yn rhesymol a chymesur.

## 4. Addasiadau Rhesymol

| | |
|---|---|
| Rhowch wybod i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am unrhyw addasiadau y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt, e.e. dogfennau mewn testun mwy o faint oherwydd nam golwg. | |

## 5. Cadarnhad bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth rwyf wedi rhoi yn wir a chywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Enw: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

## 6. Gwybodaeth Gydraddoldeb

Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio'n gwasanaethau ac elwa ohonynt. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i wneud hyn, byddai o gymorth i ni pe baech chi'n ateb y cwestiynau canlynol. Os yw'n well gennych, does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn gan na fydd yn effeithio ar eich adolygiad mewn unrhyw ffordd.

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus sy'n rhan o system gwyno'r heddlu, gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r Adolygydd Annibynnol. Medrwch gael gwybod sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio yn yr hysbysiadau preifatrwydd ar wefan pob sefydliad.

*Rhowch groes 'X' wrth ymyl pob ateb sy'n berthnasol.*

| | |
|---|---|
| Rhyw | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw<br>☐ Rhyngrywiol<br>☐ Arall (rhowch fanylion os gwelwch chi'n dda)<br>[ ] |
| A yw'ch rhyw'n wahanol i'r un y cawsoch eich geni iddi?<br><br>Os ateboch 'ydy', nodwch y rhyw y cawsoch eich geni iddi: | ☐ Ydy<br>☐ Nac ydy<br>☐ Ddim yn gwybod<br>[ ] |
| Cyfeiriadedd rhywiol: | ☐ Heterorywiol<br>☐ Deurywiol |

| | |
|---|---|
| | ☐ Hoyw/lesbiaidd<br>☐ Ddim yn gwybod<br>☐ Arall (nodwch os gwelwch chi'n dda)<br>[ ] |
| A oes gennych amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni eich gweithgareddau dyddiol arferol? | ☐ Oes<br>☐ Nac oes<br>☐ Ddim yn gwybod |
| Os ateboch 'oes' i'r cwestiwn uchod, pa un o'r dewisiadau isod sy'n disgrifio'ch anabledd orau? | ☐ Clyw<br>☐ Anhawster dysgu<br>☐ Cyflwr meddygol neu salwch sy'n bod ers amser maith<br>☐ Cyflwr iechyd meddwl<br>☐ Amhariad corfforol neu symudedd<br>☐ Golwg<br>☐ Arall (nodwch isod)<br>[ ] |
| Ethnigrwydd: | ☐ Gwyn: Seisnig/Cymreig/Albanaidd/ Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig<br>☐ Gwyn: Gwyddelig<br>☐ Gwyn: Sipsi, Teithiwr neu Deithiwr Gwyddelig<br>☐ Gwyn: unrhyw gefndir gwyn arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda)<br>[ ]<br>☐ Cymysg: gwyn a du Caribïaidd<br>☐ Cymysg: gwyn a du Affricanaidd<br>☐ Cymysg: gwyn ac Asiaidd<br>☐ Cymysg: unrhyw gefndir cymysg/aml-ethnig arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda)<br>[ ]<br>☐ Asiaidd: Indiaidd |

| | |
|---|---|
| | ☐ Asiaidd: Pacistanaidd<br><br>☐ Asiaidd: Bangladeshaidd<br><br>☐ Asiaidd: Tsieineaidd<br><br>☐ Asiaidd: unrhyw gefndir Asiaidd arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda)<br><br>☐ Du: Affricanaidd<br><br>☐ Du: Caribïaidd<br><br>☐ Du: unrhyw gefndir du/Affricanaidd/ Caribïaidd arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda)<br><br>☐ Arall: Arab<br><br>☐ Ddim yn gwybod<br><br>☐ Arall: unrhyw grŵp ethnig arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda) |
| Cred grefyddol/ffydd: | ☐ Dim crefydd<br><br>☐ Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall)<br><br>☐ Bwdhydd<br><br>☐ Hindŵ<br><br>☐ Iddew<br><br>☐ Mwslim<br><br>☐ Sikh<br><br>☐ Unrhyw grefydd arall (disgrifiwch os gwelwch chi'n dda)<br><br>☐ Ddim yn gwybod |
| Beichiogrwydd a mamolaeth: | ☐ Beichiog |

| | |
|---|---|
| | ☐ Ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth/absenoldeb mabwysiadu<br>☐ Dychwelyd o gyfnod mamolaeth/tadolaeth/absenoldeb mabwysiadu<br>☐ Dim un o'r uchod |

## 7. Atodiadau

Atodwch y llythyr penderfyniad terfynol gan Heddlu Dyfed-Powys neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill. Gall y llythyr penderfyniad terfynol gan Heddlu Dyfed-Powys ein helpu i brosesu'ch adolygiad yn gynt. Rhifwch a rhestrwch eich atodiadau yn y tabl isod os gwelwch chi'n dda.

| Rhif Cyfeirnod | Manylion/Cyfeirnod/Teitl yr Atodiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

**Diolch am y wybodaeth rydych chi wedi rhoi.**

Anfonwch eich ffurflen orffenedig at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh). Nodir y manylion cyswllt isod:

E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk
Cyfeiriad: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 2PF